

Mr Steven Woolgar
Partnerships In Care Ltd
2 Rhowch Imperial
Ffordd Maxwell
Borehamwood
Swydd Hertford
WD5 1JN

Llinell Uniongyrchol: 0300 062 8163
Ffacs: 0300 062 8387
E-bost: John.powell@wales.gsi.gov.uk

Mehefin 18, 2014

Annwyl Mr Woolgar,

Re: Ymweliad â Llanarth Court ar yr 2il, 3ydd, 4ydd a'r 5ed o Fehefin, 2014

Fel y gwyddoch cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ymweliad dirybudd i Llanarth Court ar yr 2il, 3ydd, 4ydd a 5ed Mehefin, 2014. Amlygodd ein hymweliad feysydd sy'n werth eu nodi ac maent yn cynnwys:

- Roedd cleifion yn gyffredinol yn gadarnhaol iawn am y staff a'r gofal a'r driniaeth a gawsant.
- Gwelwyd perthynas dda rhwng y cleifion a'r staff.
- Roedd nifer y seicolegwyr a therapyddion galwedigaethol (OT) wedi cynyddu ers ein hymweliad diwethaf ym mis Gorffennaf 2013.
- Roedd y gweithio ar y cyd ymysg y tîm amlddisgyblaethol (MDT) yn gynhwysfawr gyda rhai canlyniadau cadarnhaol iawn ar gyfer y grŵp hwn o gleifion.
- Mae'r adran Seicoleg yn cynnal sesiynau ymarfer myfyriol gyda staff.
- Roedd cyfleoedd ychwanegol ar gyfer hyfforddiant (anstatudol) yn gynhwysfawr ac yn cynnwys cwrs rheoli ac arweinyddiaeth newydd ar gyfer yr holl brif nyrsys a'r dirprwy brif nyrsys.

SICRHAU
GWELLIANT
TRWY
AROLYGU ANNIBYNNOL
A GWRTHRYCHOL

GYRRU GWELLIANT
TRWY AROLYGU
ANNIBYNNOL A
GWRTHRYCHOL

Healthcare Inspectorate Wales ● Arolygiaeth Gofal
Iechyd Cymru
Welsh Government ● Llywodraeth Cymru
Rhydycar Business Park ● Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tydfil ● Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Tel ● Ffôn 0300 062 8163
Fax ● Ffacs 0300 062 8387
www.hiw.org.uk

- Roedd *cynllun pasbort* goruchwyliaeth newydd yn cael ei gyflwyno i'r staff i gyd. Bydd y fenter hon yn galluogi'r staff i fod â chofnod o'r holl oruchwyliaeth sy'n digwydd.
- Cynllun O'r Ward i'r Bwrdd gwell, lle y caiff cleifion ddewis pum thema maen nhw eisiau gwybodaeth amdanynt bob chwarter.
- Arolwg boddhad cleifion sy'n cael ei gynnal ddwywaith y flwyddyn.

Fe wnaethom nodi hefyd rywfaint o welliant mewn agweddau a amlygwyd yn ein hymweliad blaenorol:

- Nodwyd y cynnydd yn nifer y cerbydau o 4 yn ein hymweliad blaenorol ym mis Gorffennaf 2013 i 7. (Pwynt 11, llythyr rheoli dyddiedig 13 Medi, 2013).
- Nodwyd bod cynlluniau gofal wedi gwella ers ein hymweliad diwethaf (pwynt 7).

Tynnodd ein hymweliad sylw at nifer o faterion hefyd. Fe wnaethom gyflwyno ein pryderon ar lafar i'ch rheolwr cofrestredig ac aelodau eraill eich tîm rheoli ar ddiwedd ein hymweliad ar 5 Mehefin 2014. Mae crynodeb o'r rhain isod:

Mater o bryder	Rheoliad
<p>1. Mae angen adolygiad brys o rifau staffio er mwyn sicrhau bod digon o staff ar gael ar gyfer ward Awen. Ar noson ein hymweliad cyntaf (2il Mehefin) nid oedd digon o staff i sicrhau mewn achos o ddigwyddiad o bwys, er enghraifft ataliad, y byddai staff yn gallu ymateb yn effeithlon ac yn effeithiol. Cafodd staffio ei nodi fel mater ym mis Gorffennaf 2013 (pwynt 1) ac mae angen gweithredu ar frys yn ei gylch.</p>	<p>Rheoliad 15 (1) (a) a (b) a 20 (1) (a) a (b)</p>
<p>2. Nid oedd digon o nyrsys cofrestredig ar gael ar y noson / yn gynnar yn y bore ar ddiwrnod ein hymweliad ar yr 2il a'r 3ydd o Fehefin. Roedd hyn yn golygu bod rhai achlysuron pan nad oedd nyrs gofrestredig ar ward pan oedd y staff yn cymryd eu seibiannau. Rhaid i bob ward fod â nyrs gofrestredig ar gael ar bob adeg o'r dydd a'r nos.</p>	<p>Rheoliad 20 (1) (a)</p>
<p>3. Roedd y rota staffio ar Awen yn anodd ei dilyn ac roedd yn amhosibl canfod faint o staff oedd ar ddyletswydd oherwydd nad oedd yn rhestru staff asiantaeth a banc. Rhaid i rota'r staff gynnwys rhestr lawn a chywir o'r holl staff sy'n gweithio ar bob ward yn yr ysbyty.</p>	<p>Rheoliad 20 (1) (a) a (b)</p>

<p>4. Roedd adleoli staff o wardiau eraill i Awen yn cael effaith sylweddol ar y rhaglen o weithgareddau ac ar forâl y staff a'r cleifion.</p>	<p>Rheoliad 15 (1) (a) a (b) a 20 (1) (a)</p>
<p>5. Nid oedd cofnod fod unrhyw gwrs sefydlu ar gael ar gyfer nyrsys asiantaeth / gweithwyr cymorth gofal. Rhaid i'r holl staff ddilyn cwrs sefydlu wedi'i ddogfennu cyn cychwyn ar y gwaith yn yr ysbyty.</p>	<p>Rheoliad 20 (1) (b) a 20 (4)</p>
<p>6. Nid oedd digon o wybodaeth ar gael am sgiliau a phrofiad nifer o staff asiantaeth i gadarnhau bod gwiriadau cyflogaeth addas wedi cael eu cynnal. Rhaid i'r holl staff sy'n gweithio yn yr ysbyty gael gwiriadau addas a phrofiad a hyfforddiant perthnasol.</p>	<p>Rheoliad 21 (2) (a) (b) (c) a (d)</p>
<p>7. Gwnaed adolygiad o'r clinig ar ward Awen a nodwyd y meysydd canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> a. Ar 31 Mai, 2014 roedd cofnod ôl-weithredol wedi ei wneud am glaf A (ond roedd wedi cael ei lofnodi ac roedd tyst wedi'i lofnodi'n flaenorol). b. Dechreuodd camgymeriadau yn nifer y Mediknet 20mg oedd mewn stoc ar 24 Mai a pharhaodd hyn tan 27 Mai, 2014. Ni sylwodd nyrsys cofrestredig oedd yn gweinyddu'r cyffur ar naw o gamgymeriadau. c. Sylwyd ar fwy o gamgymeriadau yn nifer y tabledi oedd mewn stoc ar 28-30 Mai 2014 a 2-4 Mai 2014. d. Roedd y staff wedi llofnodi i ddatgan bod meddyginiaeth Concerta XL wedi cael ei rhoi pan nad oedd. Gwrthododd claf (B) y feddyginiaeth a rhoddwyd y feddyginiaeth yn ôl yn y cynhwysydd meddyginiaeth. e. Dangosodd cofnodion meddyginiaeth ar gyfer cleifion D ac C nifer o fylchau yn y cofnod gweinyddu. Nid oedd unrhyw arwydd a oedd y cleifion wedi derbyn neu wrthod y feddyginiaeth. <p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr holl feysydd a nodwyd yn derbyn sylw a bod archwiliad fferyllol cynhwysfawr yn cael ei wneud ar gyfer yr holl wardiau o fewn 14 diwrnod i dderbyn yr adroddiad hwn.</p>	<p>Rheoliad 15 (5) (a) a (b)</p>
<p>8. Mae nifer o benderfyniadau yn fypwyol ar nifer o wardiau. Ar ward Teilo coffi di-gaffein oedd yr unig goffi a ganiateid ac ar ward Treowen roedd</p>	<p>Rheoliad 15 (1) (a) (b) a (c) a 19 (1) (a) a (b)</p>

<p>cyfyngiad ar nifer y CD / DVDs y gallai cleifion eu cael yn eu hystafelloedd gwely. Cafodd dulliau mympwyol o wneud penderfyniadau / dulliau gwaith cyffredinol eu nodi fel mater ym mis Gorffennaf 2013 (pwynt 10) ac mae angen gweithredu ynghylch hyn ar frys.</p>	
<p>9. Nid oedd nifer sylweddol o staff wedi dilyn hyfforddiant diweddarau ar Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 a Deddf Galluedd Meddyliol 2005.</p>	<p>Rheoliad 20 (1) (a) a (2) (a)</p>
<p>10. Nodwyd nifer o faterion amgylcheddol ar ward Teilo. Roedd y rhain yn cynnwys arogl annymunol, waliau wedi'u staenio ac roedd y carpedi wedi'u marcio ac wedi treulio. Yn ogystal, nid oedd y peiriant coffi / peiriant dŵr yn gweithio. Mae angen i Ward Teilo gael ei hadnewyddu ac mae angen atgyweirio /newid y peiriant coffi /dŵr.</p>	<p>Rheoliad 26 (2) (a) a (b)</p>
<p>11. Nid oedd y weithdrefn ysbytai ar gyfer ymateb i gwynion yn cael ei chadw. Nid oedd gan nifer o gwynion a archwiliwyd unrhyw dystiolaeth bod llythyr yn egluro'r rheswm dros yr oedi wedi ei anfon at y claf pan oedd y gwyn dros 20 diwrnod. Rhaid i bob cwyn gael sylw o fewn y terfynau amser a nodwyd, ac os nad yw hyn yn bosibl, mae'n rhaid i gleifion gael cadarnhad ysgrifenedig ynglŷn â hyn.</p>	<p>Rheoliad 24 (2)</p>
<p>12. Roedd argaeledd offer TG yn annigonol ar gyfer y defnydd gan staff. Rhaid i ddigon o gyfrifiaduron ac offer TG fod ar gael ar bob ward. Nodwyd y mater hwn ym mis Gorffennaf 2013 (pwynt 12) ac mae angen gweithredu yn ei gylch.</p>	<p>Rheoliad 15 (2)</p>
<p>13. Nid oedd gan yr ardal te a choffi ar ward Osbern uned sinc ac roedd bwced yn cael ei defnyddio i gael gwared ar ddiodydd nad oedd wedi eu hyfed. Mae'r arfer hwn yn gwbl annerbyniol ac mae angen gosod uned sinc.</p>	<p>Rheoliad 26 (2) (a)</p>
<p>14. Mae nifer o gleifion yn cwyno am anawsterau wrth gymryd gwyliau /gweithgareddau adran 17 oherwydd prinder staff. Mae angen i'r darparwr cofrestredig hwyluso archwiliad o absenoldeb na chafodd ei gymryd a rhoi adroddiad i AGIC.</p>	<p>Rheoliad 15 (1) (a) (b) a (c)</p>
<p>15. Rhoddodd nifer o staff a chleifion sylwadau negyddol am y bwyd, gan gynnwys y tymheredd, amrywiaeth, maint y dognau a darparu ar gyfer</p>	<p>Rheoliad 15 (9) (b)</p>

<p>gwahanol ddietau / anghenion. Gwneir adolygiad o'r bwyd a weinir.</p>	
<p>16. Er bod y rhaglen arddwriaethol i'w chanmol byddai ei gwerth yn fwy gydag achrediad ffurfiol.</p>	<p>Rheoliad 15 (1) (a) (b) a (c)</p>
<p>17. Byddai penodi tiwtor addysgol ychwanegol yn ei gwneud yn bosibl i fwy o gyrsiau fod ar gael a mwy o achredu.</p>	<p>Rheoliad 20 (1) (a)</p>
<p>18. Roedd gan yr Ystafelloedd Gofal Dwys (ICS) ar ward Awen lawr oedd wedi'i ddifrodi ac roedd y system wresogi wedi torri. Mae'n rhaid atgyweirio'r Ystafelloedd Gofal Dwys.</p>	<p>Rheoliad 26 (2) (a) (b) a (c)</p>
<p>19. Roedd yr amgylchedd gofal ar ward Awen yn ddigroeso gyda dodrefn cyfyngedig. Nid oedd y peiriant coffi yn gweithio ac roedd dŵr poeth yn cael ei gludo o swyddfa'r staff ar gyfer diodydd i'r cleifion. Roedd diffyg lle storio i gadw eiddo'r cleifion ac roedd eu cotiau yn cael eu gadael ar y llawr yn y cyntedd.</p>	<p>Rheoliad 26 (2) (a) a (b)</p>
<p>20. Cafodd cynlluniau gofal eu hadolygu ar wardiau Awen a Theilo. Nodwyd y materion canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> a. Roedd Claf D wedi cael asesiad therapi galwedigaethol ar 2 Ionawr, 2014 ac roedd hwn wedi nodi bod ar y claf angen matres arbenigol a chadair ymolchi ond nid oedd yr un o'r ddwy eitem hon ar gael ar gyfer y claf. b. Teitl cynllun gofal ar gyfer claf D oedd 'Honiadau Ffug'. Mae'r geiriad hwn yn amhriodol ac yn awgrymu y bydd unrhyw honiad y bydd y claf yn ei wneud yn ffug. c. Roedd cynllun gofal diwygiedig dyddiedig Mehefin 5, 2014 ar gyfer claf C ar reoli argyfwng yn brin o fanylion, yn benodol o ran clymu a'r ffaith fod y claf yn bwrw ei ben yn erbyn drws /waliau'r ICS. d. Roedd gan Glaf C gynllun gofal ar waith ar 'linellau sgwrsio'. Mae AGIC yn amau priodoldeb y cynllun gofal hwn. e. Ar gyfer claf E (ward Teilo), roedd diffyg manylion yn ei gynllun gofal ynghylch rheoli argyfwng /rheoli ymddygiad cyffredinol. Yn benodol, roedd diffyg sbardunau pryd y gallai'r claf fod angen ICS a diffyg technegau dad-ddwysáu wedi'u cofnodi ar gyfer ymddygiad unigol. f. Ar ward Teilo, roedd gan bob claf ddwy set o 	<p>Rheoliad 15 (1) (a) (b) (c) a (d)</p>

<p>gynlluniau gofal, un ar gyfer y tîm amlddisgyblaethol ac un ar gyfer nyrsio. Ond nid oedd y cynlluniau gofal nyrsio yn gyfredol oherwydd nad oeddent yn cael eu gwerthuso fel rhan o gynllun gofal y Tîm Amlddisgyblaethol.</p> <p>g. Nodai'r blwch sylwadau ar y cynllun gofal iechyd corfforol ar gyfer claf F (ward Teilo) fod "y claf yn ymwybodol o'r cynllun gofal". Nid yw'r sylw yn glir ac nid yw'n nodi a wnaeth y claf wrthod gwneud sylwadau. Mae angen mwy o wybodaeth.</p> <p>Mae angen ymdrin â'r holl feysydd a nodwyd fel mater o frys</p> <p>21. Nid oedd unrhyw gyfleusterau trin gwallt / torri gwallt ar y safle. Dylid rhoi ystyriaeth i gael triniwr gwallt / barbwr ar y safle.</p>	<p>Rheoliad 15 (1) (a) a (b)</p>
--	--------------------------------------

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl - Gweinyddu'r Ddeddf

Adolygwyd dogfennau cadw statudol 10 o'r cleifion a gedwir, sy'n derbyn gofal ar 6 o'r wardiau ar adeg ein hymweliad. Roedd y dogfennau statudol yn cyd-fynd â'r Ddeddf. Gwelwyd hefyd brosesau archwilio a gwirio da a gedwir ar ffeil a derbyniwyd dogfennau statudol ar gyfer derbyn cleifion a drosglwyddwyd.

Mae'n ofynnol i chi gyflwyno cynllun gweithredu manwl i AGIC erbyn **9 Gorffennaf 2014** yn nodi'r camau yr ydych eisoes wedi'u cymryd yn ogystal â'r camau yr ydych yn bwriadu eu cymryd i ymdrin â phob un o'r materion uchod. Dylai'r cynllun gweithredu nodi amserlenni a manylion am bwy fydd yn gyfrifol am y gweithredu. Pan fydd y cynllun wedi ei gytuno gan AGIC fel un priodol bydd gofyn i chi ddarparu diweddariadau cynnydd bob mis.

Ar ôl derbyn y llythyr hwn, mae gofyn i chi roi sylwadau ar gywirdeb ffeithiol y materion y manylir yn eu cylch ac ar ôl derbyn eich cynllun gweithredu, bydd copi o'r llythyr rheoli hwn, ynghyd â'ch cynllun gweithredu yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan.

Mae'n bosibl y byddwn yn cynnal ymweliad pellach i sicrhau bod y materion uchod wedi cael sylw priodol a byddwn yn cynnal ymweliadau amlach os oes gennym bryderon nad yw'r camau angenrheidiol yn cael eu cymryd mewn modd amserol.

Cofiwch gysylltu â mi os hoffech drafod cynnwys y llythyr hwn.

Mae copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at Mr Keith Barry, Rheolwr Cofrestredig.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'John Powell'. The signature is written in a cursive style with a large initial 'J'.

Mr John Powell
Pennaeth Rheoleiddio

cc - Mr Keith Barry, Ysbyty Llanarth Court, Llanarth, Rhaglan, Brynbuga, Sir Fynwy,
NP15 2YD